



CYD BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

25 Medi, 2026

TEITL: Datganiad Llywodraethiant 2025/26

AWDUR: Mark Watkins, Swyddog Monitro

1. PWRPAS YR ADRODDIAD PURPOSE OF THE REPORT

- 1.1. Cyflwyno Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol 2025/26, sy'n cofnodi canlyniad yr adolygiad blynnyddol o drefniadau llywodraethiant a rheolaeth fewnol y Cyd-bwyllgor Corfforedig, a cheisio ei gymeradwyo.

2. PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Cymeradwyo Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol 2025/26 yn Atodiad 1 fel datganiad y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar reolaeth fewnol at ddibenion Rheoliad 5 Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd).
- 2.2. Nodi a chymeradwyo'r Cynllun Gwella Llywodraethiant ar gyfer 2026/27 sydd wedi'i gynnwys yn y Datganiad.
- 2.3. Awdurdodi'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i lofnodi'r Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol.

3. RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Mae'n ofynnol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig adolygu effeithiolrwydd ei system rheolaeth fewnol o leiaf unwaith y flwyddyn ac, yn dilyn yr adolygiad hwnnw, cymeradwyo datganiad ar reolaeth fewnol a baratowyd yn unol ag arferion priodol. Y Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol yw'r dull y mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cofnodi'r adolygiad hwnnw, ei gasgliad sicrwydd cyffredinol a'r gwelliannau llywodraethiant i'w datblygu yn ystod 2026/27.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) yn gymwys i gyd-bwyllgorau corfforedig. Mae Rheoliad 5 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gynnal system gadarn o reolaeth fewnol, gan gynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol; adolygu effeithiolrwydd y system honno o leiaf unwaith y flwyddyn; ystyried canfyddiadau'r adolygiad hwnnw; a chymeradwyo datganiad ar reolaeth fewnol. Bydd y datganiad a gymeradwywyd yn cyd-fynd â'r Datganiad Cyfrifon.
- 4.2. Mae Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol 2025/26 wedi'i baratoi ar y sail honno ac yn unol â Fframwaith CIPFA/SOLACE ar gyfer Cyflawni Llywodraethiant Da mewn Llywodraeth Leol. Mae'n ystyried fframwaith llywodraethiant ehangach y CBC, gan gynnwys trefniadau cyfansoddiadol a phenderfynu, llywodraethu moesegol, rheoli ariannol, risg a pherfformiad, tryloywder,

llywodraethu rhaglenni a phartneriaethau, capasiti sefydliadol, a sicrwydd mewnol ac allanol.

- 4.3. Blwyddyn ariannol 2025/26 oedd y flwyddyn lawn gyntaf yn dilyn y trosglwyddiad ar 1 Ebrill 2025 o gyfrifoldebau Cytundeb Twf Gogledd Cymru – ynghyd â'r staff, yr adnoddau, y cyfrifoldebau ariannol a'r trefniadau llywodraethiant cysylltiedig – o drefniadau blaenorol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i'r CBC. Felly, mae'r adolygiad yn ystyried nid yn unig cydymffurfiaeth â'r fframwaith llywodraethiant, ond hefyd i ba raddau y mae trefniadau sefydliadol ac sicrwydd ehangach y CBC wedi'u hymgorffori'n effeithiol.
- 4.4. Mae'r adolygiad wedi cael ei arwain gan y Swyddog Monitro mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid ac mae'n tynnu ar dystiolaeth a sicrwydd gan uwch swyddogion perthnasol ac arweinwyr gwasanaeth, ynghyd â thystiolaeth Archwilio Mewnol ac Archwilio Cymru lle bo ar gael. Mae'r Datganiad yn gwahaniaethu rhwng materion llywodraethiant sylweddol a gwendidau rheoli materol a chmau datblygu llywodraethiant a materion gweithredol arferol.
- 4.5. Mae'r Datganiad yn dod i'r casgliad bod y fframwaith llywodraethiant wedi darparu sail resymol ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r CBC yn gyfreithlon, yn atebol ac yn effeithiol yn ystod 2025/26, gan gydnabod ar yr un pryd bod nifer o drefniadau llywodraethiant corfforaethol yn dal i gael eu datblygu neu angen eu hymwreiddio ymhellach. Adlewyrchir y materion hynny yn y cynllun gweithredu ar gyfer gwella llywodraethiant ar gyfer 2026/27.
- 4.6. Roedd y Ddrafft-Ddatganiad wedi'i drefnu i gael ei adolygu gan yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 15 Medi 2026. Yn dilyn gohirio'r cyfarfod hwnnw, nid oedd yn bosibl i'r Is-bwyllgor adolygu'r Datganiad cyn y cyfarfod hwn. Nid yw hyn yn atal y CBC rhag ystyried canfyddiadau'r adolygiad a chymeradwyo'r Datganiad ei hun yn unol â Rheoliad 5. Er mwyn cynnal rôl sicrwydd yr Is-bwyllgor, cyflwynir y Datganiad a'r cynllun gweithredu gwella i'w gyfarfod wedi'i aildrefnu cyn gynted â phosibl, gydag unrhyw argymhellion sylweddol yn cael eu hadrodd yn ôl i'r CBC.

5. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

Mae'r goblygiadau cyfreithiol wedi'u nodi uchod. Mae cydymffurfio â Rheoliad 5 yn gofyn am adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y CBC, ystyried y canfyddiadau a chymeradwyo'r datganiad ar reolaeth fewnol. Rhaid i'r datganiad gyd-fynd â Datganiad Cyfrifon y CBC.

6. GOBLYGIADAU ARIANNOL

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn deillio o gymeradwyo'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol. Mae rheoli ariannol a rheolaeth fewnol yn rhan o'r adolygiad blynyddol, a bydd unrhyw oblygiadau o ran adnoddau sy'n deillio o gamau gwella unigol yn cael sylw drwy'r prosesau cyllidebol a phenderfynu perthnasol.

ATODIADAU:

Atodiad 1: Datganiad Llywodraethiant 2025/26

YMATEB SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Rwyf yn fodlon bod y dull a fabwysiadwyd ar gyfer Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2025/26 yn cyd-fynd â gofynion Rheoliad 5 ac yn darparu sail gymesur ar gyfer sicrwydd llywodraethiant blynyddol y CBC. Nid yw gohirio cyfarfod yr Is-bwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio yn atal y CBC rhag cymeradwyo'r Datganiad ei hun, ond dylid cwblhau adolygiad yr Is-bwyllgor cyn gynted â phosibl ac adrodd unrhyw argymhellion sylweddol yn ôl i'r CBC.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Rwyf yn fodlon fod cynnwys y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn adlewyrchiad teg o drefniadau llywodraethiant a gweithgareddau perthnasol y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn 2025/26, bod y datganiad yn diwallu gofynion y Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio i baratoi datganiad o reolaethau mewnol.